Diweddarwyd 02/04/2024

Cyngor Cymuned/Tref	Neges	Ebost
1. Tregaron	Mae Cyngor Tref Tregaron yn edrych am hyfforddiant ar hyn o bryd – bydd yna gost ynghlwm a hyn neu bydd am ddim? Hefyd, pa mor hir bydd y sesiwn hyfforddiant? Bydd yn ystod y nos (gan mae rhan fwyaf o'n Cyng. yn gweithio llawn amser)	**08/03/24**
2. Llanfihangel Ystrad	Trafodwyd eich neges yng nghyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad neithiwr, Roedd y Cynghorwyr yn hapus gyda threfniant Cyngor Llanfihangel Ystrad fel ag y mae sef eu bod yn cael 'refresher' course' bach yn ystod yr AGM yn flynyddol lle maent yn cael y cyfle i arwyddo datganiad Cod Ymddygiad. Hefyd maent yn hapus bod y gefnogaeth gan yr Adran Foeseg a Safonau ar gael iddynt os bydd angen arweiniad ar unrhyw faterion sy'n peri gofid. Felly, o ysytyried yr uchod, nid oeddent yn dymuno derbyn y cynnig y tro hwn,	**13/03/24**
3. Llandysul	Bydden ni'n gwerthfawrogi hyfforddiant i'r Cynghorwyr. Wedi trafod gyda nhw fe fydden nhw yn barod i neud e os ma fe ar-lein.	**16/03/24**
4. Aberaeron/ Ciliau Aeron, Dyffryn Arth a Llansantffraed (4)	Hoffwn, ar ran y pedwar Cyngor rwyn clercio, groesawi cynnig y Pwyllgor i gynnal sesiwn ar y Cod Ymddygiad. Hoffwn wneud cais fod y sesiwn yn cynnwys y canlynol os gwelwch yn dda: • cyngor ar ddarpariaethau Paragraff 6 y Cod. Hyd y gwn i, nid yw'r Swyddog Monitro erioed wedi cynnwys cyngor o'r fath yn ei chyflwyniadau ar y Cod i Aelodau / Clercod ac y byddai cael cyngor o'r fath hwn yn fuddiol iawn iddyn nhw.	**17/03/24**

Diweddarwyd 02/04/2024

	• cyngor ar yr angen i 'hunan-gyfeirio' - sef cyngor a roddir yn gyson gan y Swyddog Monitro i Aelodau - er nad oes cyfeiriad o gwbl yn y Cod am unrhyw angen i wneud hwn. Diolch yn fawr eto am gynnig hyfforddiant o'r fath a mawr hyderaf y gall y Pwyllgor gytuno gyda fy nghais.	
5. Ysbyty Ystwyth	Rwyf wedi gofyn y cwestiwn ar ran Cyngor Cymuned Ysbyty Ystwyth ac mae'r cynghorwyr a diddordeb I dderbyn yr hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad. Mae ganddynt rhai cwestiynau; 1. Ble fydd yr hyfforddiant yn cael eu gynnal, 2. Os oes digon o ddiddordeb gan gynghorau cymuned cyfagos a posibilrwydd cynnal yr hyfforddiant yn lleol,(mewn neuadd pentref) 3. Faint yw y cost ir cynghorau cymuned. 4. Oes modd cynnal yr hyfforddiant ar lein, Zoom neu Teams.	**18/03/24**
6. Llangwyryfon	Byddai gan Gynghorwyr Cyngor Cymuned Llangwyryfon diddordeb mewn mynychu hyfforddiant Cod Ymddygiad mewn person. Fel Cyngor, rydym wedi trafod y posibilrwydd yma cyn hyn ac wedi gofyn i gynghorau arall yn yr ardal os byddai diddordeb ganddynt hefyd i fynychu hyfforddiant naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein mewn grwp - cafon atebion positif gan Gynghorau Llanrhystud a Llansantffraed.	**18/03/24**
7. Llanrhystud	Byddai cynghorwyr Cyngor Cymuned Llanrhystud â ddiddordeb mewn mynychu sesiwn hyfforddiant Côd Ymddygiad mewn person, yn sicr. Rhowch wybod i mi os oes angen unrhyw manylion pellach. Rydw i hefyd yn glerc i Cyngor Cymuned Llangwyryfon ac fe allai cadarnhau byddai diddordeb ganddyn nhw hefyd; efallai gallwn trefnu sesiwn i'r ddau cyngor gyda'i gilydd?	**31/03/24**

Diweddarwyd 02/04/2024

8. Ceulanamaesmawr	Yng nghyfarfod misol y Cyngor nos Lun diwethaf, 25 Mawrth, penderfynodd y Cyngor y byddai'n dymuno cael hyfforddiant wyneb yn wyneb ar y Cod Ymddygiad. Byddwn yn ddiolchgar am gael rhagor o wybodaeth am hyn.	**28/03/24**
9. Pontaryfynach/Melindwr (2)	Mewn ymateb i'r ymholiad isod dyma gadarnhau y byddai Cynghorwyr Cyngor Bro Pontarfynach yn dymuno derbyn hyfforddiant gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau. Yn ddelfrydol yr hyfforddiant mewn grwpiau bach e.e. Ward Melindwr.	**01/04/24**
10. Ystrad Meurig	Ymddiheuriadau lu am yr oedi yn ymateb i dy ebost isod. Byddem yn gwerthfawrogi hyfforddiant ar y Cod ymddygiad i'n Cynghorwyr. Dwy ddim yn gwybod sut wyt ti am drefnu hyn, boed yn ganolig neu yn y Gymuned, pe baet yn dymuno sesiwn cymunedol gallwn drefnu bod Canolfan Edward Richard, Ystrad Meurig ar gael - byddai modd wedyn iti drefnu bod cynghorau lleol yn ymuno? Hapus i gael sgwrs pe bai'r angen.	**02/04/24**